

Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio

Mae pobl yng Nghymru yn byw'n hirach. Mewn 20 mlynedd, gallai 1 o bob 4 ohonom fod dros 65 oed. Mae hyn yn beth da – amcangyfrifwyd bod pobl hŷn wedi cyfrannu £2.19 biliwn i economi Cymru yn 2018.

Er hynny, mae poblogaeth sy'n heneiddio yn dod â heriau newydd i Lywodraeth Cymru, i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, elusennau, busnesau, cymunedau ac i bob un ohonom fel unigolion.

Mae *Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'n ystyried y pethau niferus sy'n dylanwadu ar sut rydym yn tyfu'n hŷn, megis iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a hyd yn oed y ffordd rydym yn cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am eraill.

Nod y strategaeth yw newid y ffordd rydym yn meddwl am heneiddio. Drwy gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bobl hŷn yng Nghymru, gallwn weithio ar draws y cenedlaethau i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn.

Y weledigaeth

- *Ein gweledigaeth yw Cymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.*
- *Rydym eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn.*
- *Cymru lle gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a theimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.*

- *Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial pobl hŷn nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cael.*
- *Yn y pen draw, rydym eisiau bod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, bod yn genedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunanfodddhad ac urddas pobl hŷn bob amser.*

Pedwar nod

Mae pedwar nod i'r Strategaeth:

Nod 1: Gwella llesiant

Rydym am helpu pobl i fyw bywydau iachach a hapusach am gyfnod hirach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Gefnogi gofalywyr di-dâl
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl

Nod 2: Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau

Rydym am wella'r manau lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Adeiladu ac addasu cartrefi sy'n addas i bobl wrth iddynt fynd yn hŷn.
- Creu system drafnidiaeth integredig.
- Creu manau trefol a gwyrdd sy'n ddiogel ac yn hawdd eu cyrraedd.

Nod 3: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl

Rydym am helpu pobl i fod yn weithgar yn eu cymunedau lleol cyhyd ag y bo modd. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gefnogi pobl i fod yn egniol drwy wirfoddoli neu gael clywed eu llais mewn grwpiau a fforymau lleol
- Dod â cham-drin pobl hŷn i ben
- Annog pobl i gynllunio ar gyfer eu dyfodol
- Cefnogi gweithwyr hŷn a phobl sy'n gofalu am rywun yn ogystal â gweithio
- Darparu hawl i ddysgu gydol oes

Nod 4: Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran

Rydym am helpu pobl hŷn sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol sy'n golygu ystyried anghenion y rhai sydd o dan anfantais gymdeithasol neu economaidd ym mhob penderfyniad a wnawn
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredyd pensiwn a buddion cysylltiedig
- Buddsoddi yn economi sylfaenol Cymru, sef yr holl wasanaethau sylfaenol y mae pobl yn dibynnu arnynt megis iechyd a gofal cymdeithasol, tai, adeiladu, bwyd a thwristiaeth. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod pedair o bob deg swydd ac un bunt o bob tair a wariwn yng Nghymru yn rhan o'r economi sylfaenol.

Tair thema drawsbynciol sy'n perthyn i'r strategaeth

1. Creu Cymru o blaid pobl hŷn

Mae'r ymateb byd-eang i boblogaeth sy'n heneiddio wedi bod yn gam tuag at greu cymunedau a dinasoedd sydd o blaid pobl hŷn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi:

Trwy wneud dinasoedd a chymunedau'n ystyriol i oedran, rydym yn sicrhau eu bod yn lleoedd cynhwysol a chyfartal nad ydynt yn anghofio am neb – yn enwedig y bobl hŷn sydd fwyaf agored i niwed. Mae gan gymdeithasau teg, yn eu tro, fanteision i bawb.

Rydym am i Gymru fod yn rhan o'r symudiad byd-eang hwn tuag at gymunedau sy'n ystyriol o oedran.

2. Rhoi blaenoriaeth i waith atal

Trwy greu cymunedau, cartrefi, systemau trafnidiaeth a lleoedd awyr agored sy'n galluogi pobl i heneiddio'n dda, ein nod yw helpu poblogaeth Cymru i fyw bywydau iach a chyflawn cyhyd ag y bo modd. Rydym am helpu pobl drwy roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt gynllunio ymlaen llaw a chymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

3. Dull sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n gwrthod rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran

Rydym am helpu pobl hŷn i ddeall eu hawliau. Gall gwella ymwybyddiaeth o hawliau hefyd rymuso pobl i gymryd rheolaeth ac adnabod a herio triniaeth wael. Mae hefyd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall yr hawliau hyn ac nad ydynt yn trin pobl yn annheg oherwydd eu hoedran.

Rydym wedi sefydlu **Fforwm**

Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl hŷn a'u cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru. Byddant yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r strategaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn.